



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2007 Rhif 1040 (Cy.100)

2007 No. 1040 (W.100)

BWYD, CYMRU

FOOD, WALES

**Hysbysiadau o Farchnata Bwyd at
Ddefnydd Maethol Neilltuol
(Cymru) 2007**

**The Notification of Marketing of
Food for Particular Nutritional
Uses (Wales) Regulations 2007**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

1. Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn rhoi ar waith Erthyglau 9 ac 11 o Gyfarwyddeb y Cyngor 89/398/EEC ar gyd-ddynesiad cyfreithiau'r Aelod-wladwriaethau sy'n ymwneud â deunyddiau bwyd a fwriedir ar gyfer ddefnydd maethol neilltuol, (OJ Rhif L186, 30.6.1989, t.27), fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 1882/2003 (OJ Rhif L284, 31.10.2003, t.1).

1. These Regulations, which apply in relation to Wales, implement Articles 9 and 11 of Council Directive 89/398/EEC on the approximation of the laws of the member States relating to foodstuffs intended for particular nutritional uses, (OJ No. L186, 30.6.1989, p.27), as last amended by Regulation (EC) No. 1882/2003 (OJ No. L284, 31.10.2003, p.1).

2. Mae'r Rheoliadau yn ymwneud â bwydydd y mae modd, oherwydd eu cyfansoddiad arbennig neu oherwydd y broses o'u cynhyrchu, gwahaniaethu'n glir rhyngddynt â bwydydd i'w bwyta'n arferol, ac sy'n cael eu marchnata fel rhai addas ar gyfer categorïau o ddefnyddwyr y mae eu prosesau treulio neu eu metaboledd yn afreolus, neu sydd mewn cyflwr ffisiolegol arbennig, neu ar gyfer babanod neu blant ifanc sy'n cael iechyd da, ond nad ydynt yn cael ac na fyddant yn cael eu cwmpasu gan Gyfarwyddebau eraill ar fathau penodol o ddeunyddiau bwyd at ddefnydd maethol neilltuol (cyfeirir at y diffiniad o "fwyd DMN" yn rheoliad 2(1)).

2. The Regulations concern foods which, owing to their special composition or manufacturing process, are clearly distinguishable from foods for normal consumption, and which are marketed as suitable for categories of consumers with disturbed digestive processes or metabolism or in a special physiological condition, or for infants or young children in good health, but which are neither covered nor to be covered by other Directives on specific types of foodstuffs for particular nutritional uses (the definition of "PNU food" in regulation 2(1) refers).

3. Mae'r Rheoliadau hyn-

3. These Regulations-

- (a) yn gwahardd gwerthu cynhyrchion o'r fath onid oes cydymffurfiaid â gofynion Erthygl 9 o'r Gyfarwyddeb (hysbysiadau i awdurdodau cymwys o gynhyrchion o'r fath) (rheoliad 3);
a

- (a) prohibit the sale of such products unless the requirements of Article 9 of the Directive (notification to competent authorities of such products) have been complied with (regulation 3); and

(b) yn galluogi'r Asiantaeth i atal dros dro neu i gyfyngu ar fasnachu mewn cynhyrchion o'r fath drwy ddatganiad ysgrifenedig os oes ganddo seiliau manwl dros sefydlu nad yw'r cynnyrch yn cydymffurfio ag Erthygl 1(2) o'r Gyfarwyddeb (gofynion ar gyfer deunyddiau bwyd at ddibenion maethol neilltuol) neu os yw'n peryglu iechyd pobl (rheoliad 4).

4. Mae cyfrifoldebau gorfodi, tramgwyddau a chosbau a chymhwysio darpariaethau Deddf Diogelwch Bwyd 1990 yn cael eu gosod yn rheoliadau 5, 6 a 7 o'r Rheoliadau hyn.

5. Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn dirymu Rheoliadau Hysbysiadau o Farchnata Bwyd at Ddefnydd Maethol Neilltuol (Cymru a Lloegr) 2002 (O.S. 2002/333) i'r graddau y maent yn gymwys o ran Cymru (rheoliad 8).

6. Mae'r darpariaethau parthed labelu a geir yn y Gyfarwyddeb yn cael eu rhoi ar waith gan y Rheoliadau Labelu Bwyd 1996 (O.S. 1996/1499).

7. Mae arfarniad rheoliadol llawn wedi'i baratoi ar gyfer y Rheoliadau hyn a'i roi yn llyfrgell Cynulliad Cenedlaethol Cymru ynghyd â chopi o'r nodyn trosi sy'n nodi sut y mae prif elfennau Erthyglau 9 ac 11 o'r Gyfarwyddeb yn cael eu trosi. Gellir hefyd gael copïau oddi wrth yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Llawr 11, Southgate House Caerdydd CF10 1EW.

(b) enable the Agency by written declaration to suspend or restrict trade in products intended for a particular nutritional use where it has detailed grounds for establishing that the product does not comply with Article 1(2) of the Directive (requirements for foodstuffs for particular nutritional uses) or endangers human health (regulation 4).

4. Enforcement responsibilities, offences and penalties and application of provisions of the Food Safety Act 1990 are set out in regulations 5, 6 and 7 of these Regulations.

5. These Regulations also revoke the Notification of Marketing of Food for Particular Nutritional Uses (England and Wales) Regulations 2002 (S.I. 2002/333) in so far as they apply to Wales (regulation 8).

6. Labelling provisions of the Directive are implemented in the Food Labelling Regulations 1996 (S.I. 1996/1499).

7. A full regulatory appraisal has been prepared for these Regulations and has been placed in the Library of the National Assembly for Wales along with a copy of the transposition note setting out how the main elements of Articles 9 and 11 of the Directive are transposed. Copies are also available from the Food Standards Agency, 11th Floor, Southgate House, Cardiff CF10 1EW.

2007 Rhif 1040 (Cy.100)**2007 No. 1040 (W.100)****BWYD, CYMRU****FOOD, WALES****Diwygio'r Rheoliadau Hysbysiadau
o Farchnata Bwyd at Ddefnydd
Maethol Neilltuol (Cymru) 2007****The Notification of Marketing of
Food for Particular Nutritional
Uses (Wales) Regulations 2007***Wedi'u gwneud* 27 Mawrth 2007*Made* 27 March 2007*Yn dod i rym* 1 Ebrill 2007*Coming into force* 1 April 2007

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 17(1), 26(1)(a) a (3) a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(1), ac a freiniwyd ynddo ef bellach(2).

The National Assembly for Wales makes the following Regulations in exercise of the powers conferred by sections 17(1), 26(1)(a) and (3) and 48(1) of the Food Safety Act 1990(1), and now vested in it(2).

Yn unol ag adran 48(4) o'r Ddeddf honno, mae wedi rhoi ystyriaeth i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

In accordance with section 48(4A) of that Act, it has had regard to relevant advice given by the Food Standards Agency.

Fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(3), cafwyd ymgynghori agored a thryloyw â'r cyhoedd yn ystod cyfnod paratoi a gwerthuso'r Rheoliadau hyn.

As required by Article 9 of Regulation (EC) No. 178/2002 of the European Parliament and of the Council laying down the general principles and requirements of food law, establishing the European Food Safety Authority and laying down procedures in matters of food safety(3), there has been open and transparent public consultation during the preparation and evaluation of these Regulations.

Enwi, cychwyn a chymhwys**Title, commencement and application****1. Mae'r Rheoliadau hyn-****1. These Regulations-**

- (a) yn dwyn yr enw Rheoliadau Hysbysiadau o Farchnata Bwyd at Ddefnydd Maethol Neilltuol (Cymru) 2007
- (b) yn dod i rym ar 1 Ebrill 2007; ac
- (c) maent yn gymwys o ran Cymru.

- (a) are called the Notification of Marketing of Food for Particular Nutritional Uses (Wales) Regulations 2007;
- (b) come into force on 1 April 2007; and
- (c) apply in relation to Wales.

(1) 1990 p.16.

(1) 1990 c.16.

(2) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(2) Functions of the Secretary of State under the Food Safety Act 1990, so far as exercisable in relation to Wales, were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(3) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1 fel y'i diwygiwyd ddiwethaf adeg gwneud yr offeryn hwn gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 575/2006 (OJ Rhif L100, 8.4.2006, p.3).

(3) OJ No. L31, 1.2.2002, p.1 as last amended as at the making of this instrument by Commission Regulation (EC) No.575/2006 (OJ No. L100, 8.4.2006, p.3).

Dehongli

2.-(1) Yn y Rheoliadau hyn-

mae i "awdurdod bwyd" ("*food authority*") yr un ystyr â "*food authority*" yn adran 5(1A) a (3)(a) a (b) o'r Ddeddf;

ystyr "bwyd DMN" ("*PNU food*") yw bwyd at ddefnydd maethol neilltuol-

- (a) y mae, oherwydd ei gyfansoddiad arbennig neu y broses o'i gynhyrchu, gwahaniaeth amlwg rhyngddo â bwyd a fwriadwyd i'w fwyta'n arferol, a
- (b) sy'n cael ei werthu mewn modd sy'n dangos a ydyw'n addas ar gyfer y diben maethol penodol honedig,

ond nad yw'n dod o fewn unrhyw un o'r dosbarthiadau a ganlyn-

- (i) fformwlâu babanod a fformwlâu dilynol,
- (ii) bwydydd proses sydd wedi'u seilio ar rawn a bwydydd babanod ar gyfer babanod a phlant ifanc,
- (iii) bwyd y bwriedir ei ddefnyddio mewn deietau cyfyngu-ar-ynni er mwyn colli pwysau,
- (iv) bwydydd deietegol at ddibenion meddygol arbennig,
- (v) bwydydd sydd wedi'u bwriadu i ddiwallu ymdrech gyhyrol sylweddol, yn arbennig ar gyfer sbortsmyn, a
- (vi) bwydydd ar gyfer pobl sy'n dioddef gan anhwylderau carbohydrad-metaboliaeth (clefyd siwgr);

ystyr "defnydd maethol neilltuol" ("*particular nutritional use*") yw bodloni gofynion maethol neilltuol-

- (a) rhai categorïau o bobl y mae eu prosesau treulio, neu eu metaboledd yn afreolus, neu
- (b) rhai categorïau o bobl y mae eu cyflwr seicolegol yn golygu ei bod o fudd arbennig iddynt fwyta, a hynny dan reolaeth, unrhyw sylwedd mewn bwyd, neu
- (c) babanod neu bobl ifanc sydd mewn iechyd da;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Diogelwch Bwyd 1990;

mae "gwerthu" ("*sell*") yn cynnwys meddu gyda'r bwriad o werthu a chynnig, amlygu neu hysbysebu (ac eithrio gyda label neu ddeunydd lapio) gyda'r bwriad o werthu;

Interpretation

2.-(1) In these Regulations-

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Food Safety Act 1990;

"the Directive" ("*y Gyfarwydddeb*") means Council Directive 89/398/EEC on the approximation of the laws of the member States relating to foodstuffs intended for particular nutritional uses⁽¹⁾;

"food authority" ("*awdurdod bwyd*") has the same meaning as in section 5(1A) and (3)(a) and (b) of the Act;

"PNU food" ("*bwyd DMN*") means a food for a particular nutritional use which-

- (a) owing to its special composition or process of manufacture, is clearly distinguishable from food intended for normal consumption, and
- (b) is sold in such a way as to indicate its suitability for its claimed particular nutritional purpose,

but does not fall within any of the following classifications-

- (i) infant formulae and follow-on formulae,
- (ii) processed cereal-based foods and baby foods for infants and young children,
- (iii) food intended for use in energy-restricted diets for weight reduction,
- (iv) dietary foods for special medical purposes,
- (v) foods intended to meet the expenditure of intense muscular effort, especially for sportsmen, and
- (vi) foods for persons suffering from carbohydrate-metabolism disorders (diabetes);

"particular nutritional use" ("*defnydd maethol neilltuol*") means the fulfilment of the particular nutritional requirements of-

- (a) certain categories of persons whose digestive processes are, or whose metabolism is, disturbed, or
- (b) certain categories of persons whose physiological condition renders them able to obtain a special benefit from the controlled consumption of any substance in food, or
- (c) infants or young children in good health; and

(1) OJ No. L186, 30.6.89, p.27 as last amended as at the making of this instrument by Regulation (EC) No. 1882/2003 (OJ No. L284, 31.10.2003, p.1). Annex 1 to Council Directive 89/398/EEC was replaced by Directive 1999/41/EC (OJ No. L172, 8.7.99, p.38).

ystyr "y Gyfarwyddeb" ("*the Directive*") yw Cyfarwyddeb y Cyngor 89/398/EEC ar gyddynesiad cyfreithiau'r Aelod-wladwriaethau sy'n ymwneud â deunyddiau bwyd a fwriedir ar gyfer defnydd maethol penodol(1).

(2) Mae i ymadroddion Saesneg eraill a'r ymadroddion Cymraeg cyfatebol a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn ac yn y Gyfarwyddeb yr un ystyr yn y Rheoliadau hyn ag sydd iddynt yn y Gyfarwyddeb honno.

Cyfyngiad ar werthu

3.-(1) Ni chaiff neb mewn perthynas â cynnyrch bwyd DMN o fath neilltuol-

- (a) sydd yn weithgynhyrchydd neu'n fewnforiwr y cyfeirir ato yn erthygl 9 o'r Gyfarwyddeb, ond
- (b) sydd wedi methu â chydymffurfio -
 - (i) â gofyniad i hysbysu'r awdurdod cymwys, fel y cyfeirir ato ym mharagraff 1 neu 2 o'r Erthygl honno, neu
 - (ii) â gofyniad i ddangos unrhywbeth i'r awdurdod cymwys, fel y cyfeirir ato ym mharagraff 3 o'r Erthygl honno,

werthu cynnyrch bwyd DMN o'r math hwnnw.

(2) At ddibenion paragraff (1), yr awdurdod cymwys yw-

- (a) mewn perthynas â bwyd DMN a weithgynhyrchwyd yng Nghymru, neu a fewnforiwyd i Gymru o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig, yr Asiantaeth Safonau Bwyd;
- (b) mewn perthynas â bwyd DMN a weithgynhyrchwyd mewn tiriogaeth arall o fewn y Deyrnas Unedig (neu a fewnforiwyd o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig), yr awdurdod sydd wedi'i ddynodi'n briodol o fewn y diriogaeth honno fel yr awdurdod cymwys at ddibenion Erthygl 9 o'r Gyfarwyddeb mewn perthynas â'r bwyd.

Datganiad

4.-(1) Os oes gan yr Asiantaeth seiliau manwl dros sefydlu nad yw deunydd bwyd a fwriedir at ddefnydd maethol neilltuol nad yw'n perthyn i un o'r grwpiau a restrir yn Atodiad 1 i'r Gyfarwyddeb yn cydymffurfio ag Erthygl 1(2) o'r Gyfarwyddeb neu ei fod yn peryglu iechyd pobl, caiff atal dros dro neu gyfyngu ar fasnachu yn y cynnyrch hwnnw drwy ddatganiad ysgrifenedig.

(2) Rhaid i ddatganiad o'r fath gael ei gyhoeddi mewn modd sydd ym marn yr Asiantaeth yn addas a rhaid iddo bennu'r cynnyrch dan sylw.

"sell" ("*gwerthu*") includes possess for sale and offer, expose or advertise (otherwise than by means of a label or wrapper) for sale.

(2) Other expressions used in these Regulations and in the Directive have the same meaning in these Regulations as they have in the Directive.

Restriction on sale

3.-(1) No person who, in respect of a PNU food product of a particular type-

- (a) is a manufacturer or an importer referred to in Article 9 of the Directive, but
- (b) has failed to comply with-
 - (i) a requirement to notify the competent authority, as referred to in paragraph 1 or 2 of that Article, or
 - (ii) a requirement to produce anything to the competent authority, as referred to in paragraph 3 of that Article,

may sell a PNU food product of that type.

(2) For the purposes of paragraph (1) the competent authority is-

- (a) in respect of PNU food manufactured in Wales, or imported into Wales from outside the United Kingdom, the Food Standards Agency;
- (b) in respect of PNU food manufactured in (or imported from outside the United Kingdom into) another territory within the United Kingdom, the authority duly designated in that territory as the competent authority for the purposes of Article 9 of the Directive in respect of the food.

Declaration

4.-(1) Where the Agency has detailed grounds for establishing that a foodstuff intended for a particular nutritional use which does not belong to one of the groups listed in Annex I to the Directive does not comply with Article 1(2) of the Directive or endangers human health, it may by written declaration suspend or restrict trade in that product.

(2) Such a declaration must be published in such manner as the Agency thinks fit and must specify the product concerned.

(1) OJ Rhif L186, 30.6.89, t.27, fel y'i diwigiwyd ddiwethaf adeg gwneud yr offeryn hwn gan Reoliad (EC) Rhif 1882/2003 (OJ Rhif L284, 31.10.2003, t.1). Disodlwyd Adtodlen 1 i Gyfarwyddeb y Cyngor 89/398/EEC gan Gyfarwyddeb 1991/41/EC (OJ Rhif L172, 8.7.99, t.38).

(3) Rhaid i ddatganiad sy'n gosod amodau ar fasnachu mewn unrhyw gynnyrch bennu'r amodau hynny.

(4) Os oes datganiad mewn grym sy'n atal dros dro fasnachu mewn unrhyw gynnyrch, ni chaiff neb fasnachu yn y cynnyrch hwnnw.

(5) Os oes datganiad mewn grym yn gosod amodau ar fasnachu mewn unrhyw gynnyrch, ni chaiff neb fasnachu yn y cynnyrch hwnnw oni bai bod y cynnyrch yn cydymffurfio â'r amodau a bennir yn y datganiad.

(6) Gellir addasu, atal neu ddirymu datganiad drwy ddatganiad ysgrifenedig pellach a gyhoeddir, cyhyd ag y bo'n ymarferol, yn yr un modd ac i'r un graddau â'r datganiad gwreiddiol.

Gorfodi

5. Rhaid i bob awdurdod bwyd orfodi a gweithredu'r Rheoliadau hyn yn ei ardal.

Tramgwyddau a chosbau

6. Os bydd unrhyw berson yn mynd yn groes i reoliad 3(1) neu reoliad 4(4) neu (5), bydd y person hwnnw yn euog o dramgwydd ac yn agored o'i gollfarnu'n ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 5 ar y raddfa safonol.

Cymhwyso darpariaethau amrywiol Deddf Diogelwch Bwyd 1990

7. Mae'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf yn gymwys at ddibenion y Rheoliadau hyn a bydd unrhyw gyfeiriad yn y darpariaethau hynny at y Ddeddf neu Ran ohoni yn cael ei ddehongli at ddibenion y Rheoliadau hyn fel cyfeiriad at y Rheoliadau hyn:

- (a) adran 2 (ystyr estynedig "sale" etc.);
- (b) adran 3 (rhagdybiaethau fod bwyd wedi'i fwriadu i'w fwyta gan bobl);
- (c) adran 20 (tramgwyddau sy'n codi oherwydd bai person arall);
- (ch) adran 21 (amddiffyniad diwydrwydd dyladwy) fel mae'n gymwys at ddibenion adran 14 neu 15 o'r Ddeddf;
- (d) adran 22 (amddiffyniad cyhoeddi yn ystod busnes);
- (dd) adran 30(8) (sy'n ymwneud â thystiolaeth ddogfennol);
- (e) adran 33(1) (rhwystro etc. swyddogion);
- (f) adran 33(2), gyda'r addasiad y bernir bod y cyfeiriad at "any such requirement as is mentioned in subsection (1)(b) above" yn gyfeiriad at unrhyw ofyniad o'r fath ag a grybwyllir yn yr is-adran honno fel y'i cymhwysir gan baragraff (e);

(3) A declaration which imposes conditions on trade in any product must specify those conditions.

(4) Where a declaration is in force suspending trade in any product, no person may trade in that product.

(5) Where a declaration is in force imposing conditions on trade in any product, no person may trade in that product unless the product complies with conditions specified in the declaration.

(6) A declaration may be modified, suspended or revoked by a further written declaration published, so far as is practicable, in the same manner and to the same extent as the original declaration.

Enforcement

5. Each food authority is to enforce and execute these Regulations in its area.

Offences and penalties

6. If any person without reasonable excuse contravenes regulation 3(1) or regulation 4(4) or (5), that person is guilty of an offence and liable on summary conviction to a fine not exceeding level 5 on the standard scale.

Application of various provisions of the Food Safety Act 1990

7. The following provisions of the Act apply for the purposes of these Regulations and any reference in those provisions to the Act or Part thereof are construed for the purposes of these Regulations as a reference to these Regulations:

- (a) section 2 (extended meaning of "sale" etc.);
- (b) section 3 (presumptions that food is intended for human consumption);
- (c) section 20 (offences due to fault of another person);
- (d) section 21 (defence of due diligence) as it applies for the purposes of section 14 or 15 of the Act;
- (e) section 22 (defence of publication in the course of business);
- (f) section 30(8) (which relates to documentary evidence);
- (g) section 33(1) (obstruction etc. of officers);
- (h) section 33(2), with the modification that the reference to "any such requirement as is mentioned in subsection (1)(b) above" is deemed to be a reference to any such requirement as is mentioned in that subsection as applied by paragraph (g);

- (ff) adran 35(1) (cosbi tramgwyddau) i'r graddau y mae'n ymwneud â thramgwyddau o dan adran 33(1) fel y'i cymhwysir gan baragraff (e);
- (g) adran 35(2) a (3) i'r graddau y mae'n ymwneud â thramgwyddau o dan adran 33(2) fel y'i cymhwysir gan baragraff (f);
- (ng) adran 36 (tramgwyddau gan gyrrff corfforaethol);
- (h) adran 36A (tramgwyddau gan bartneriaethau Albanaidd); ac
- (i) adran 44 (amddiffyn swyddogion sy'n gweithredu'n ddidwyll).

- (i) section 35(1) (punishment of offences) in so far as it relates to offences under section 33(1) as applied by paragraph (g);
- (j) section 35(2) and (3) in so far as it relates to offences under section 33(2) as applied by paragraph (h);
- (k) section 36 (offences by bodies corporate);
- (l) section 36A (offences by Scottish partnerships); and
- (m) section 44 (protection of officers acting in good faith).

Dirymu

8. I'r graddau y maent yn gymwys o ran Cymru, dirymir Rheoliadau Hysbysiadau o Farchnata Bwyd at Ddefnydd Maethol Penodol (Cymru a Lloegr) 2002(1) drwy hyn.

Revocation

8. In so far as they apply in relation to Wales, the Notification of Marketing of Food for Particular Nutritional Uses (England and Wales) Regulations 2002(1) are revoked.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(2)

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(2)

27 Mawrth 2007

27 March 2007

D. Elis-Thomas

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

(1) O.S. 2002/333.

(2) 1998 p.38.

(1) S.I. 2002/333.

(2) 1998 c.38.

OFFERYNNAU STATUDOL

2007 Rhif 1040 (Cy.100)

BWYD, CYMRU

Hysbysiadau o Farchnata Bwyd at
Ddefnydd Maethol Neilltuol
(Cymru) 2007

STATUTORY INSTRUMENTS

2007 No. 1040 (W.100)

FOOD, WALES

The Notification of Marketing of
Food for Particular Nutritional
Uses (Wales) Regulations 2007

©© Hawlfraint y Goron 2007

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2007

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£3.00

W0053/05/07

ON